COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU

BWLETIN PCC Cymru
Rhif 7 – 15 Mai 2012

Mae'r bwletin hwn yn un o gyfres o ddiweddariadau rheolaidd i'ch hysbysu ynglŷn â datblygiadau i gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn 2012.

Yn y rhifyn hwn:

- **Digwyddiadau Partner Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau – adborth o'r digwyddiadau ledled Cymru a Lloegr;**
- **Esboniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ynglŷn â sut fyddant yn cefnogi Paneli'r Heddlu a Throseddau yng Nghymru;**
- **Manylion porth HMIC ble gall ymgeiswyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau gael mynediad at wybodaeth ynglŷn â heddluoedd;**
- **Arolwg ar-lein i helpu llunio cyfathrebu.**

Digwyddiadau Partner Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

Yn ddiweddar fe gynhaliom gyfres o 17 digwyddiad ledled Cymru a Lloegr. Daeth pob digwyddiad ag ystod o bartneriaid ynghyd o hyd at dair ardal heddlu i ystyried materion yn ymwneud â'r trosiant i'r Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Roeddynt yn sesiynau byr, gyda ffocws bendant i darfod meysydd allweddol o waith gyda chyflwyniadau yn darparu gwybodaeth hanfodol, trafodaethau ford gron, a'r defnydd o dechnoleg ddigidol i gipio cwestiynau a materion pryder, yn ystod y sesiynau.

Mae dadansoddiad cychwynnol o adborth mynychwyr yn awgrymu:

- gwelliant cyffredinol yn nealltwriaeth mynychwyr o bolisi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau;
- croesawyd y prif gyflwyniadau, ond mae yna archwaeth am ragor o wybodaeth o hyd, a mwy o gyfathrebu o fanylion polisi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau;
- roedd y trafodaethau ford gron yn gyfle gwerthfawr i bartneriaid feincnodi eu gwybodaeth a chynnydd gyda chydweithwyr o ardaloedd cyfagos.

Ymysg rhai o'r themâu allweddol a gododd roedd:

- Amrywiaeth lleol yn ymgysylltiad partneriaid â rhaglenni trosiant awdurdod yr heddlu;
- Awydd am fwy o eglurder ar gyllid, yn arbennig o ran beth yn union na fydd yn cael ei ariannu o'r canol yn y dyfodol; ac
- Yr angen i'r Swyddfa Gartref gefnogi arweinyddiaeth a chyfathrebu sector.
- Cyfansoddiad Paneli'r Heddlu a Throseddau.

Rhaglenni trosiant lleol

Rydym yn ymwybodol bod yna gryn dipyn o waith yn digwydd yn lleol i baratoi ar gyfer cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Anogir Byrddau Trosiant i ddosbarthu manylion eu gwaith i ystod eang o bartneriaid lleol a sicrhau eu cynhwysiant mewn cynllunio ar gyfer cynllun cyntaf Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a threfniadau comisiynu cysylltiedig.

Eglurder ar gyllid
Cyhoeddir manylion pellach ar drefniadau ariannu yn 2013-14 yn fuan.

Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid
Rydym yn dal i adolygu'r miloedd o gwestiynau a gyflwynwyd yn y digwyddiadau a byddwn yn defnyddio'r rhain i addasu a gwella adran Cwestiynau Cyffredin ein gwefan, ac i hysbysu unrhyw wybodaeth a gynhyrchwn yn y dyfodol. Gwefan Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau: http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners/. Byddwn yn cynhyrchu adroddiad cryno ar y themâu sy'n codi o'r digwyddiadau.

Rydym wedi cynhyrchu arolwg ar-lein cryno a fydd yn ein helpu i ddatblygu ein cyfathrebu gyda chi. Dyma'ch cyfle i roi gwybod i ni beth yw'ch anghenion gwybodaeth a sut fyddai'n well gennych ei derbyn. Ni ddylai'r arolwg gymryd dim mwy na 10 munud i'w gwblhau. Gallwch gwblhau'r arolwg yma:
http://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/v.asp?i=46969lyjxy

Cefnogaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer cyfathrebu a arweinir gan y sector

Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ledled y llywodraeth, arweinyddion sector a sefydliadau perthnasol eraill (megis Cymdeithas Llywodraeth Leol, NOMS, a YJB) yn eu gohebiaeth gyda thimau llywodraeth leol, asiantaethau lleol a chyflawni, gan eu helpu i esbonio'r polisi ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ac opsiynau gweithredu lleol posibl. Ble fo'n bosibl byddwn yn hapus i:

- fynychu cynadleddau neu weithdai a arweinir gan y sector;
- wirio ffeithiau cyfathrebu ac arweiniad.

Os hoffech ein cynnwys yn eich gwaith, cysylltwch â ni yn:
PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

Neu os yr hoffech i ni 'wirio ffeithiau' eich cynnwys, anfonwch e-bost atom yn:
PCCFactChecker@homeoffice.gsi.gov.uk

Cefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i Baneli'r Heddlu a Throseddau

I hwyluso trafodaethau ar y trefniadau ymarferol a thechnegol angenrheidiol er mwyn sefydlu Paneli'r Heddlu a Throseddau erbyn Hydref 12, cynhaliodd CLILC ddiwrnod datblygu ar 26 Ebrill gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. Roedd y diwrnod yn arbennig o ddefnyddiol ac mae awdurdodau nawr yn llawer cliriach ynglŷn â rôl ddisgwyliedig Paneli'r Heddlu a Throseddau a'r camau angenrheidiol i sefydlu a chefnogi eu gwaith.

Byddwn yn cynnal nifer o gyfarfodydd awdurdodau lleol dilynol yn ystod yr wythnosau i ddod yn eu hardaloedd heddlu perthnasol i drafod yn fanylach sut maent eisiau dwyn ymlaen sefydlu Paneli'r Heddlu a Throseddau, yn cynnwys nodi awdurdodau blaenllaw erbyn Gorffennaf 2012. Bydd Awdurdodau Heddlu Cymru a CLILC yn chwarae rhan hwylusydd i gynorthwyo'r broses hon.

Un mater sy'n cael ystyriaeth bellach ar hyn o bryd yw cyllid. Bu CLILC yn ymgynghori'n ddiweddar gydag awdurdodau lleol ar ei rôl bosibl i gefnogi awdurdodau Cymru trwy gronni'r cyllid cyfyngedig ynghyd i ddarparu mwy o hyblygrwydd a chymorth i liniaru'r risg ar gyfer Awdurdod Lleol arweiniol mewn unrhyw ardal sy'n fwy na'r lefel o gyllid sydd ar gael.

Mae Gweinidog yr Heddlu Nick Herbert wedi cytuno yr ystyrir 'costau eithriadol' o ganlyniad i waith Panel yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru, tu hwnt i 'fusnes fel arfer', ar sail fesul achos. Mae gwaith yn parhau gyda'r Swyddfa Gartref i ddatblygu'r mecanwaith i gyflawni hyn. Bydd hyn hefyd yn helpu lleihau'r risg a darparu sicrwydd ar y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwaith y Paneli'r

Heddlu a Throseddau.

Porth HMIC

Mae HMIC wedi datblygu porth gwe ble gall ymgeiswyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau posibl gael mynediad at wybodaeth perfformiad a lawrlwytho adroddiadau HMIC heddluoedd penodol a chenedlaethol. Mae'r safle hefyd yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin a dolenni i wefannau partneriaid allweddol a heddluoedd ac awdurdodau heddlu. Dylai hyn fod ar-lein yn fuan, trowch at y wefan: www.hmic.gov.uk am ragor o wybodaeth.

Diweddariad Cyfathrebu

Yn ystod cyfnod 6 wythnos y digwyddiadau Partner Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, bu Swyddfa'r Wasg y Swyddfa Gartref yn targedu cyfryngau lleol i sicrhau sylw i'r digwyddiadau, ac i ddosbarthu'r negeseuon allweddol ynglŷn â rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'r dylanwad fydd ganddynt ar blismona lleol. Cafwyd sylw mewn dros 25 o bapurau rhanbarthol, yn cynnwys y Western Mail yn Ne Cymru. Cafodd y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol, Nick Herbert, hefyd ei gyfweld ar nifer o orsafoedd radio rhanbarthol, gan helpu cynyddu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd ynglŷn â'r polisi a beth mae'n golygu i bobl a phlismona yn eu hardal. Mae Swyddfa'r Wasg yn bwrw ymlaen gyda'n hymgyrch cyfryngau trwy gydol y Gwanwyn a'r Haf, gan fanteisio ar ymweliadau ac areithiau gweinidogol i sicrhau sylw pellach.

Cafwyd sylw yn y wasg yn ddiweddar hefyd ar ymgeiswyr posibl a sut fyddwn yn cyfathrebu â'r etholaeth ynglŷn ag ymgeiswyr yn eu hardaloedd. Yn ddiweddar fe gwblhaodd y Llywodraeth ymgynghoriad gyda'r Comisiwn Etholiadol ac eraill oedd yn cynnwys ystyriaeth o sut allai'r cyhoedd dderbyn gwybodaeth ynglŷn ag ymgeiswyr Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer hyn, ac ystyriaeth bwysig fydd i alluogi'r cyhoedd i gael mynediad at wybodaeth trwy ddetholiad o ddulliau.

Gwybodaeth a chyfathrebu

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, gallwch ddod o hyd i'r holl ddogfennau a gwybodaeth allweddol arall sydd ar gael hyd yn hyn ar adran benodol y Comisiynwyr ar wefan y Swyddfa Gartref:
http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners

Mae llyfryn gwybodaeth hefyd ar gael ar gyfer ymgeiswyr posibl:
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/have-got-what-takes/got-what-it-takes
Mae diffyg cynrychiolaeth gan fenywod, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn swyddi
etholedig. Mae hyn yn gyfle i bobl o bob lliw a llun sefyll a gwneud gwahaniaeth.

Rydym yn anfon bwletinau rheolaidd trwy gydol cyflwyniad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i'ch hysbysu. Byddwn hefyd yn ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sydd gennych. Cysylltwch â ni yn PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau a chwestiynau trwy gydol y broses ddatblygu a gweithredu.